ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd 9 Medi 2005, am 10.30am yn Siambr y Cyngor Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Y Cynghorydd P Palmer (C)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd P Lloyd	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D Lewis	CBS Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd D C Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd A Robinson	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Carol A Williams	CS Penfro / Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orll. Cymru)

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd E Morgan	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd R G Harris	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd P A Hacking	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion

2. Cofnodion cyfarfod o'r Fforwm 29 Ebrill 2005

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem 8: Ymweliad safle â chyfleuster MBT – dywedodd GW bod yr ymweliad arfaethedig â chyfleuster Caerlŷr wedi'i ohirio a bod ymholiadau ynghylch ymweld â'r cyfleuster MBT yn Nhwyni Crymlyn. Nodwyd y gellid trefnu dyddiad ym mis Hydref. **Gweithredu**: CM i hysbysu Aelodau a swyddogion pan fydd y dyddiad wedi'i gadarnhau.

3. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 15 Ebrill 2005 – Wedi'u nodi.

Eitem 6: Mynegodd y Cyng. Palmer ei siom ynghylch y diffyg ymateb gan y Diwydiant, o ran cyfranogi yng ngwaith y Grŵp Technegol a hefyd y broses ymgynghori.

Eitem 8: **Gweithredu**: CM i ddosbarthu cwmpas y gwaith a wnaed gan Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru.

4. <u>Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 17 Awst 2005</u> – Wedi'u nodi.

Eitem 3: Dylai'r 4ydd pwynt bwled ddarllen "Cafwyd ymatebion wedi hynny hefyd gan AyrA (Cymru) ac **ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro** ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro".

5. <u>Contract y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol: Adroddiad ar Wastraff Peryglus</u>
[Adroddiad yr Ymgynghoriad (Awst 2005) / Adroddiad Atodol Ymgynghoriad (Awst 2005) / Adroddiad ar Wastraff Rhanbarthol (Drafft – Medi 2005)]

Cyfeiriodd GW at y dogfennau uchod a ddosbarthwyd gan adrodd fel a ganlyn:

- cafwyd cryn dipyn o waith caled wrth ailddrafftio'r Adroddiad;
- Cynhyrchwyd yr ***Adroddiad yr Ymgynghoriad (Awst 2005)*** o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn y cyfnod ymgynghori 4 wythnos;
- cynhyrchwyd yr ***Adroddiad Atodol yr Ymgynghoriad (Awst 2005)*** o'r ymatebion ychwanegol a gyflwynwyd gan USG LlCC ar yr ail ddrafft cychwynnol yn dilyn yr ymgynghori ffurfiol;
- mae'r ***Adroddiad Drafft ar Wastraff Peryglus (Awst 2005)*** yn ymgorffori'r holl argymhellion a wnaed yn y ddau Adroddiad yr Ymgynghoriad;
- paratowyd fersiynau tebyg o'r *Adroddiad Drafft* yn y ddau rhanbarth arall; ac
- mae angen i'r FfA gytuno ar yr Adroddiad ac yna ei gadarnhau cyn gynted ag y bo modd wedi hynny gan bob awdurdod unigol cyn ei gyflwyno'n swyddogol i LCC.

Gofynnwyd i swyddogion gadarnhau'n derfynol gywirdeb y manylion yn Nhablau A.10 ac A.11. Dylid anfon unrhyw ddiwygiadau at CM. **Gweithredu**: Pawb.

Cytunwyd ar yr Adroddiad ar Wastraff Peryglus.

6. <u>Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd</u>

Yn dilyn canslo'r Seminar Lledaenu a Hyfforddi, adroddodd CM fel a ganlyn:

- bod yr ymchwil a'r adroddiad terfynol wedi'u cwblhau;
- mae Cadeirydd Fforwm y De-ddwyrain wedi ysgrifennu at Carwyn Jones yn mynegi pryder ynghylch cyhoeddi'r ymchwil cyn unrhyw fath o ymgynghori na chyfranogiad gan y Grwpiau Rhanbarthol;
- mewn ymateb i'r cais hwn, cydnabu LlCC bod angen trin lledaenu'r ymchwil yn ofalus. Mae LlCC wedi cadarnhau y bydd pob un o'r Grwpiau Rhanbarthol yn cael cyflwyniad gan RPS a chyfle i drafod y prosiect ymhellach gyda swyddogion LlCC;
- bydd cyfarfod ar y cyd rhwng y GTRh / FfA i ledaenu'r ymchwil; ac
- mae'n debygol y bydd Seminar Ledaenu Cymru gyfan i'w chynnal ddydd Llun 31 Hydref.

Cytunwyd y byddai Seminar Ledaenu'r De-orllewin yn cael ei chynnal am 10.30am, dydd Mawrth 18 Hydref (lleoliad i'w gadarnhau).

7. <u>Rhaglen Waith y Dyfodol</u>

Cyfeiriodd GW at ***Nodyn Briffio Rhaglen Waith y Dyfodol***. Cafwyd cyfle i danlinellu'r rhaglen waith angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Rhanbarth dros y 18 mis nesaf, gan bwysleisio'r tasgau allweddol a'r dyddiadau targed.

8. <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>

Cadarnhawyd mai'r cyfarfod nesaf fyddai Seminar Ledaenu Mapio GIS (gweler eitem 6), am 10.30am, dydd Mawrth 18 Hydref.

9. Unrhyw fater arall

Mynegodd y Cyng. Palmer bryder wedi'r cyfarfod â Carwyn Jones AC. Ymddengys bod gorchwyl y Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol wedi newid. Awgrymodd CJ ei fod yn disgwyl i'r GGRh lunio ceisiadau am arian strwythurol er nad oedd sôn am hynny yn y cytundeb cychwynnol. Roedd CJ hefyd wedi annog gweithio cydweithrediadol ar gynllunio gwastraff gan fygwth tynnu hynny o ddwylo awdurdodau lleol os na fyddai hynny'n cael ei gyflawni.

Cytunwyd mai'r brif broblem oedd y ffaith nad oedd arweiniad cadarn gan LCC ynghylch "rhesymoli gweithio rhanbarthol" – mae angen mynd i'r afael â hyn.

O ran sicrhau cyfleusterau rhanbarthol /is-ranbarthol yn Ne-orllewin Cymru yn y dyfodol, nodwyd bod cyfarfod a drefnwyd gan GLlLC wedi'i drefnu yng Nghaerfyrddin y byddai Cyfarwyddwyr Corfforaethol sy'n gyfrifol am reoli gwastraff, yn ei fynychu. Diben y cyfarfod yw nodi'r cyfle i weithio ar y cyd ar reoli gwastraff gyda'r nod o gytuno ar 'lwybr' i gyflawni hyn.

Pwysleisiwyd y byddai cryn gorgyffwrdd a hynny o bosib yn fuddiol, rhwng gweithio ar y cyd CLlLC / y llwybr a gwaith y Grŵp. Dywedodd CM y cytunwyd y byddai papurau'r cyfarfod yn cael eu hanfon i Gastell-nedd Port Talbot fel Cydlynydd Grŵp De-orllewin Cymru. **Gweithredu**: CM i ddosbarthu'r papurau ar ôl eu derbyn.